Llywodraeth Cymru
Welsh Government

POLISI A STRATEGAETH, DOGFENNU

# Diwygiad i gyfradd ceiniog fesul milltir y cyfraniad milltiroedd am deithio yn eich car eich hun a roddir drwy’r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl a’r Grant Teithio i israddedigion ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023 (SFWIN 07/2022)

Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio'r newid i gyfradd y filltir ar gyfer teithio mewn car eich hun.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 1 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiad-i-gyfradd-ceiniog-fesul-milltir-y-cyfraniad-milltiroedd-am-deithio-yn-eich-car-eich-hun** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyfradd ceiniog fesul milltir y cyfraniad milltiroedd am deithio yn eich car eich hun o 24 ceiniog y filltir i'r **gyfradd a argymhellir gan CThEM** o 45 ceiniog y filltir i bob myfyriwr anabl cymwys sy'n gwneud hawliad lwfans teithio ac i bob myfyriwr israddedig sy'n gwneud hawliad grant teithio ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023.

Bydd teithio ar feic modur yn parhau ar gyfradd o 24c y filltir gan fod hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad CThEM.

Bydd y newid yn berthnasol ar gyfer pob hawliad a gyflwynir am deithio yn ystod blwyddyn academaidd 2022 i 2023 ac ar gyfer myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau.

Ni fydd modd gwneud ôl-gais am hawliadau a dderbynnir ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023 ond sy'n ymwneud â theithio mewn blwyddyn academaidd flaenorol.

Bydd y gyfradd yn cael ei hadolygu bob blwyddyn.

## Ymholiadau

Gall darllenwyr gysylltu â Llywodraeth Cymru neu eu swyddog cyswllt arferol yn y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael rhagor o wybodaeth am gymhwystra. Gellir cysylltu â Llywodraeth Cymru ar **isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru**. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diwygiad-i-gyfradd-ceiniog-fesul-milltir-y-cyfraniad-milltiroedd-am-deithio-yn-eich-car-eich-hun** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.